# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033:

# Cytundeb Cyflawni

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor**.** Mae modd gweld copïau hefyd ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor, a gellir cael copi gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd am unrhyw agwedd o'r ddogfen hon cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 576311 / 575432 / 575445 / 575447 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461**.

## *TUDALEN* *GYNNWYS*


1. CYFLWYNIAD ........ 3

2. AMSERLEN ........ 5

3. CYNLLUN YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED ........ 8

4 Y BROSES O LUNIO'R CYNLLUN ........ 12

ATODIAD 1: GEIRFA ........ 15

ATODIAD 2: CRYNODEB O'R RHEOLIADAU ........ 23

ATODIAD 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU ........ 26

ATODIAD 4: ADNODDAU ........ 27

ATODIAD 5: AMSERLEN CDLL FANWL ........ 28

ATODIAD 6: CYRFF SY'N YMWNEUD Â PHROSES Y CDLLN ........ 29

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn darparu'r strategaeth ddatblygu a fframwaith polisi ar gyfer cyfnod penodol y cynllun. Mae'n ddogfen cynllunio defnydd tir bwysig fydd yn llywio a rheoli datblygiad, gan ddarparu'r sail o ran sut mae ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu. Unwaith iddo gael ei fabwysiadu, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi sicrwydd i gymunedau'r Fwrdeistref Sirol lle y bydd datblygiad dros gyfnod y cynllun. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn sicrhau bod egwyddorion creu lleoedd a chynaliadwyedd wrth wraidd y broses creu cynlluniau, gan adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.2 Ar 24 Hydref 2013, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022. Ardal Cynllun y CDLl yw Bwrdeistref Sirol Conwy, ac eithrio'r rhan honno o'r awdurdod sydd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cyhoeddi'n unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Bu i Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 argymell cynnal adolygiad llawn o'r CDLl, yn bennaf oherwydd materion yn ymwneud â thai a chyflenwad cyflogaeth. Yn ogystal, ers Hydref 2017, mae Adolygiad yn ofynnol yn unol â Rheoliad 41 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

1.3 Mae Adroddiad Adolygu'r CDLl ar wefan y Cyngor yn cynnwys manylion llawn ynglŷn â'r rhesymau dros adolygu ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017. Nes y bydd yr Adolygiad o'r CDLl wedi'i gwblhau a'r CDLlN wedi'i fabwysiadu, CDLl 2007-2022 fydd y Cynllun Datblygu statudol o hyd at ddibenion rheoli datblygiad.

1.4 Bydd gan y CDLl Newydd (CDLlN) gyfnod cynllunio o 15 mlynedd, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2033. Cyhoeddwyd Cytundeb Cyflawni CDLl cyntaf Conwy yn 2018; yr oedd yn nodi'r amserlen bendant hyd Archwilio gan y Cyhoedd ac amserlen ddangosol hyd at fabwysiadu. Gan fod CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd bellach wedi'i gytuno gan y Cyngor, mae angen diwygio'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol o 2018 i osod yr amserlen bendant ffurfiol hyd at fabwysiadu'r CDLlN.

1.5 Yn unol â Rheoliadau 6, 8 a 9 2005 uchod, a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, mae'r Cytundeb Cyflawni drafft hwn yn nodi:

- yr **Amserlen** ar gyfer paratoi CDLlN Conwy; a’r
- **Cynllun Ymgysylltu â’r Gymuned**, sy’n esbonio sut a phryd y gall budd-ddeiliaid ac aelodau’r cyhoedd gyfrannu at broses y CDLl.

## 2. AMSERLEN

2.1 Roedd yr amserlen wreiddiol yn nodi'r hyn yr oedd y Cyngor yn ei ystyried yn amserlen heriol, ond realistig, ar gyfer paratoi'r CDLIN. Yn ei llythyr dyddiedig 29 Mawrth, nododd y Gweinidog ei bod yn disgwyl y byddai'r cynllun yn cael ei baratoi o fewn 3 blynedd a hanner i gychwyn y broses. Gwnaeth amserlen wreiddiol ar gyfer paratoi CDLI Conwy fodloni'r gofyniad hwn, sy'n caniatáu cyfnod o 3 blynedd a 4 mis. Fodd bynnag, cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar yr amserlen o ganlyniad i'r angen i adolygu tystiolaeth a deall yr effaith ar bob elfen o baratoi'r cynllun a'r dull hyd yma.

2.2 Yn dilyn cytundeb y Cyngor ar 25 Gorffennaf 2025 i ymgynghori ar y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae angen i'r Cyngor yn awr ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni ac adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r CDLIN. Mae'r amserlen fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig hwn yn cynnig mabwysiadu'r CDLIN yng nghanol 2027. Mae hyn yn llawer hirach na'r amserlen ar gyfer paratoi a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. Mae'n drueni y bu oedi o'r fath, ac mae hyn yn bennaf o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r angen i ailedrych ar y dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i strategaeth y CDLIN.

2.3 Ar ôl ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ac yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd i'w Archwilio gan y Cyhoedd, fe darodd pandemig Covid-19. Arweiniodd hyn at amharu ar brosesau gweithio a chyfranogiad y gymuned/budd-ddeiliaid. Fodd bynnag, effaith fwyaf arwyddocaol y pandemig ar broses y CDLI Newydd oedd yr angen i ailedrych ar y dystiolaeth sydd ar gael o ran y CDLI Newydd, yn enwedig yn ymwneud ag anghenion tai a chyflogaeth. O ganlyniad i'r tarfu a'r ansicrwydd cysylltiedig, nid oedd tystiolaeth gadarn a oedd yn addas ar gyfer llunio polisïau ar gael yn ystod blynyddoedd cyntaf y pandemig. Bu'n rhaid hefyd ystyried effeithiau cysylltiedig eraill gan gynnwys pwysau cynyddol ar y stoc dai ar gyfer ail gartrefi/llety gwyliau a newidiadau canlyniadol i bolisi/deddfwriaeth genedlaethol.

2.4 Mae'r amserlen yn ystyried y camau sydd eu hangen wrth adolygu'r CDLI, yn unol â'r Rheoliadau yn cynnwys amserlenni ar gyfer ymgynghori; y trefniadau llywodraethu sydd ar waith a'r amseroedd arwain i ganiatáu i elfennau allweddol o'r CDLIN fynd drwy'r broses ddemocrataidd; y gwaith sydd angen ei wneud i ddiweddaru'r dystiolaeth sydd ar gael a'r polisïau yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael i'r tîm Polisi Cynllunio. Ceir rhagor o fanylion am yr ystyriaethau hyn yn yr Atodiadau.

2.5 Gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig hwn hyd at fabwysiadu, fodd bynnag cydnabyddir y gall amgylchiadau godi a allai olygu na ellir cadw at yr amserlen. Er mwyn osgoi diwygiad ffurfiol i'r amserlen o ganlyniad i fân oedi ym mhroses y CDLl, cynigir gwneud lwfans am 3 mis ar gyfer methiannau. Caiff amserlen bendant ei darparu ar gyfer yr holl gamau o'r CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd hyd at fabwysiadu yn Nhabl 2.1 isod yn cynnwys y camau hynny sydd bellach wedi'u cwblhau.

**Tabl 2.1: AMSERLEN BENDANT**

| Cam Allweddol o Baratoi'r Cynllun | O | I | Ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad ar yr Adolygiad (wedi'i gwblhau)**<br>• Ystyried casgliadau AMB<br>• Paratoi Adroddiad ar yr Adolygiad ac atodiadau<br>• Cyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Gorffennaf 2017 | Ebrill 2018 | Tachwedd – Rhagfyr 2017<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| | | | |
| **Cytundeb Cyflawni (wedi'i gwblhau)**<br>• Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft ac adrodd i'r Cabinet<br>• Ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol<br>• Cyflwyno i LlC am gytundeb | Hydref 2017 | Mai 2018 | Cabinet 27 Chwefror 2018<br>Cyflwynwyd i LlC Ebrill 2018<br>Cytuno ar y Cytundeb Cyflawni Mai 2018<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| | | | |
| **Cyfranogiad Cyn Archwilio gan y Cyhoedd (wedi'i gwblhau)**<br>• Adolygu/diweddaru'r sail dystiolaeth<br>• Galw am safleoedd ymgeisiol | Mai 2018 | Tachwedd 2018 | Amherthnasol<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| | | | |

| Cam Allweddol o Baratoi'r Cynllun | O | I | Ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Ymgynghoriad Cyn Archwilio gan y Cyhoedd (wedi'i gwblhau)**<br>• Nodi ac asesu dewisiadau strategol<br>• Paratoi Strategaeth a Ffefrir, adroddiad cychwynnol Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<br>• Adrodd ar y Strategaeth a Ffefrir i'r Cyngor Llawn<br>• Ymgynghoriad Cyhoeddus<br>• Paratoi Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol | Rhagfyr 2018 | Medi 2018 | Cyngor Llawn 11 Gorffennaf 2019<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus Gorffennaf – Medi 2019<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (yn mynd rhagddo)**<br>• Paratoi Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u diweddaru<br>• Asesu effaith Covid ar y CDLIN a diweddaru'r sail dystiolaeth<br>• Adrodd ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd i'r Cyngor Llawn<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd (8 wythnos)<br>• Paratoi adroddiad ar yr ymgynghoriad | Medi 2019 | Ionawr 2026 | Cyngor Llawn Gorffennaf 2025 Ymgynghoriad Cyhoeddus Rhagfyr 2025 – Ionawr 2026<br><br>**Ar y gweill** |
| | | | |
| **Newidiadau Penodol (heb eu cynnig)**<br>Nid yw newidiadau penodol yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, o ganlyniad i roi blaenoriaeth fawr i broses y CDLIN. | Amherth nasol | Amherth nasol | Amherthnasol |
| | | | |
| **Cyflwyno**<br>• Paratoi dogfennau CDLl i'w cyflwyno<br>• Cyflwyno CDLl i LlC a PCAC | Mawrth 2026 | Tachwe dd 2026 | Amherthnasol |
| **Archwilio a Mabwysiadu**<br>• Archwiliad Cyhoeddus<br>• Paratoi Adroddiad yr Arolygydd<br>• Derbyn Adroddiad yr Arolygydd<br>I'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu | Tachwe dd 2026 | Hydref 2027 | Amherthnasol |

| Cam Allweddol o Baratoi'r Cynllun | O | I | Ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Monitro'r CDLI**<br>Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyhoeddi'n flynyddol, ar gyfer pob blwyddyn lawn ar ôl mabwysiadu CDLIN | Amherth nasol | Amherth nasol | Parhaus. Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y CDLIN ar gyfer y flwyddyn 2028-29 i'w gyflwyno erbyn 31 Hydref 2029 ac yn flynyddol ar ôl hynny. |

2.6 Mae amserlen arall wedi ei darparu yn Atodiad 5 er mwyn dadansoddi'r camau uchod yn fanylach.

## *3. CYNLLUN YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED*

3.1 Mae lefel ofynnol o ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn cael ei nodi yn y Rheoliadau a'r Llyfryn Cynlluniau Datblygu, fel y nodir yn Atodiad 2. Er mwyn bod yn dryloyw, yn agored ac fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, bydd CBS Conwy yn anelu at ragori ar y gofynion hyn. Bydd amrywiaeth o ddulliau a thechnegau ymgynghori yn cael eu defnyddio i annog ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn gwneud proses y CDLI mor hygyrch â phosibl ac er mwyn galluogi unrhyw un i fynegi eu safbwyntiau.

3.2 Yn ogystal â'r manylion a gyhoeddir yn y Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yma, bydd y Cyngor yn llunio Cynllun Cyfathrebu, a fydd yn esbonio'n fanwl y dulliau ymgynghori a fydd yn cael eu defnyddio yn ystod pob cam o lunio'r CDLIN. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o ymgyngoreion, y dogfennau y byddir yn ymgynghori arnynt, a phan fo'n briodol y lleoliadau y bydd y digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal. Bydd ymgynghoriad penodol wedi'i dargedu hefyd yn cael ei gynnal i ymgysylltu â grwpiau a ddiogelir ac annog sylwadau.

3.3 Mae'r dull o ymgynghori ac ymdrin â sylwadau a amlinellir yma yn gysylltiedig â phroses baratoi'r CDLIN, fodd bynnag disgwylir y bydd llunio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hefyd yn dilyn prosesau tebyg.

3.4 Nodau'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yw:

i) Esbonio sut bydd y cynllun datblygu yn cael ei adolygu, ei ddatblygu a'i fonitro mewn partneriaeth â'r gymuned a budd-ddeiliaid eraill.
ii) Gwella'r broses o baratoi'r cynllun drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, eu cynnwys yn llawn, yn effeithiol ac yn gynhwysol wrth adolygu'r CDLl.
iii) Ceisio sefydlu consensws rhwng budd-ddeiliaid ar amcanion a nodau'r cynllun ac o ran ei ddewisiadau a'r strategaeth a ffefrir.
iv) Darparu proses ymgysylltu dryloyw a strwythuredig â'r gymuned, yn ystod pob cam wrth baratoi'r CDLIN.
v) Ymgorffori arferion gorau i'r broses o ran datblygu cynaliadwy a gofynion Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol.
vi) Esbonio sut fydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol wrth baratoi'r CCA yn ymwneud â'r CDLIN.
vii) Defnyddio'r prosesau hyn i lunio cynllun cadarn.

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned**

3.5 Mae'r egwyddorion canlynol yn dangos yr ymagwedd gyffredinol tuag at ymgysylltu â'r gymuned.

i) Dylai swyddogion ac aelodau sicrhau bod y gymuned leol yn cael ei haddysgu'n barhaus ynghylch egwyddorion eang y system gynllunio fel rhaglen barhaus. Bydd y Cyngor yn cynnal digwyddiadau ymgynghori yn y gymuned ac yn annog y rhai sydd â diddordeb yn y CDLIN neu a allai gael eu heffeithio ganddo i gyfranogi.

ii) Dylai'r holl weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn ymwneud â chynllunio defnydd tir fod yn rhan hanfodol o broses cynllunio cymunedol ehangach y Cyngor.

iii) Mae budd-ddeiliaid yn cyfrannu at baratoi, adolygu a diweddaru prosesu a pholisïau'r cynllun datblygu.

iv) Dylid integreiddio ymgysylltu â'r gymuned yn y CDLIN â'r broses ddemocrataidd sefydledig a dylai fod gan aelodau etholedig swyddogaethau wedi'u diffinio'n glir yn yr adolygiad o'r CDLl.

v) Bydd gwybodaeth am faterion cynllunio ar gael i fudd-ddeiliaid cyn gynted â phosibl a hynny mewn fformatau hygyrch.

vi) Yn rhan o broses ddwy ffordd, mae budd-ddeiliaid yn cael gwybod am ddeilliannau ymarferion ymgysylltu â'r gymuned.

vii) Wrth baratoi ac ymgymryd ag ymgysylltu â'r gymuned, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amser a'r adnoddau sydd ar gael iddo.

**Proses Ymgysylltu â'r Gymuned**

3.6 Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a bydd yn ceisio deall anghenion y cwsmer ac ymateb i anghenion cwsmeriaid drwy gydol y broses ymgynghori ar y CDLIN; yr amcan yw meithrin a chynnal cysylltiadau a strwythurau effeithiol â'r budd-ddeiliaid i gyd. Bydd y dulliau ymgynghori a'r ystod o gyrff yr ymgynghorir â hwy yn amrywio yn unol â phob cam o'r broses ymgynghori.

3.7 Wrth lunio'r rhestr o gyrff ymgynghori, mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, a Rheoliadau CDLI (gweler Atodiadau 2 a 6). Mae'n rhaid i'r Cyngor ymgysylltu â'r cyrff ymgynghori cyffredinol hyn fel y mae'n ystyried sy'n briodol, a sicrhau bod y cyrff hyn yn adlewyrchu amrywiaeth demograffig ardal y cynllun, yn ogystal ag amrywiaeth buddiannau. Pan fo'n briodol, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Sir ac mewn amrywiol fformatau er mwyn sicrhau bod y broses yn fwy hygyrch i ystod eang o bobl. Mae'r camau pryd y bydd sefydliadau a'r cyhoedd yn cyfranogi yn cael eu hegluro ym mharagraff 4.2.

3.8 Hefyd, bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi drwy gyfrwng datganiadau i'r wasg a hysbysiadau, pan fo'n briodol, ar wefan y Cyngor ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Bydd cyfleoedd i bartïon eraill a'r cyhoedd roi sylwadau yn ystod camau critigol. Bydd arddangosfeydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio yn cael eu cynllunio hefyd a'u hysbysebu, pan fo'n briodol, er mwyn darparu cyfranogiad cyhoeddus wyneb yn wyneb.

3.9 Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn cael ei baratoi ac yn destun ymgynghoriad ar yr un pryd.

3.10 Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a Deddf Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, bydd ymarferion ymgynghori cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog.

**Dulliau adborth**

3.11 Bydd ymatebion i'r ymgynghoriadau yn cael eu casglu ac yna bydd swyddogion ac aelodau yn eu hystyried. Yn unol ag egwyddor (vii) paragraff 3.4, bydd y cyfranogwyr yn cael eu hysbysu am ddeilliannau'r ymarferion ymgynghori o fewn amserlen briodol. Cyflwynir adborth yn y ffurfiau canlynol:

- Llythyr / e-bost cydnabod;
- Manylion ynghylch pryd a ble y gellir gweld yr Adroddiad ar Sylwadau;
- Manylion am unrhyw benderfyniad / addasiad a wnaed a rhesymau ategol am y penderfyniad yn dilyn adroddiadau i bwyllgorau'r Cyngor;
- Manylion am gamau nesaf proses y cynllun;
- Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei diweddaru er mwyn hysbysu'r cyhoedd am gynnydd.

# 4 Y BROSES O LUNIO'R CYNLLUN

**Sut fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu**

4.1 Bydd crynodebau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd i Grŵp Cynllunio Strategol. Bydd yr ymatebion yn cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf canlynol:

i) A yw'r ymateb yn gysylltiedig â'r mater sy'n berthnasol i'r CDLIN?

ii) A yw'r ymateb yn gyson â materion statudol y mae'n rhaid i'r CDLIN eu hystyried (er enghraifft, polisi cenedlaethol a'r adnoddau sydd ar gael)?

iii) A yw'r ymateb yn gyson â meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol?

**Camau critigol proses y cynllun**

4.2 Bydd nifer o gamau allweddol i bartïon â buddiant allu cymryd rhan yn y CDLIN. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi bod y broses adolygu lawn yr un fath â'r broses o baratoi'r cynllun (Rheoliad CDLI 3(1)). Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cynnwys y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol dan wahanol reoliadau, a gellir gweld rhestr o ymgyngoreion arfaethedig yn Atodiad 6. Mae'r ymgynghori arfaethedig ar gyfer pob cam o lunio'r CDLIN fel a ganlyn:

**i) Cam adolygu**

Ar 10 Hydref 2017, bu i'r Cyngor ystyried Adroddiad drafft ar yr Adolygiad o'r CDLI a chytunodd bod angen adolygiad llawn o'r CDLI. Ymgynghorir ar Adroddiad Adolygu'r CDLI ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i LIC cyn dechrau rhoi'r CDLIN ar waith.

**ii) Cytundeb cyflawni**

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig hwn, sy'n cynnwys yr Amserlen a'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned.

**iii) Ymgynghori ar y dull o lunio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae Rholiadau Diogelu'r Amgylchedd Cymru (2004) yn nodi bod gan CNC a Cadw rôl statudol yn y broses ymgynghori, oherwydd eu gwybodaeth arbenigol ynghylch agweddau o'r amgylchedd. Mae CBSC yn credu hefyd y dylai Dŵr Cymru fod yn rhan o'r broses. Ymgynghorwyd â'r cyrff hyn ynghylch cwmpas a lefel manylder y wybodaeth fydd yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**iv) Gwahodd awgrymiadau ynghylch dyraniadau safleoedd**

Cysylltodd y Cyngor â datblygwyr, asiantau a chyrff sy'n cynrychioli tirfeddianwyr, gan roi cyfle iddyn nhw awgrymu safleoedd allai fod yn addas i'w datblygu. Cyhoeddodd y Cyngor hysbyseb yn y papurau newydd lleol ac ar ei wefan, yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gynnig awgrymiadau tebyg. Rhoddodd y Cyngor wybod i'r rhai sy'n cynnig safleoedd bod yn rhaid i'r dyraniad fod yn gyson ag amcanion cyflawni cynllun cydnerth. Gellir gweld manylion llawn y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd a'u cam asesu presennol yma: Gwefan y Cyngor

**v) Cyfranogiad cyn archwilio gan y cyhoedd**

Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, y dewisiadau strategol, y strategaeth a ffefrir, y polisïau allweddol, yr adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, a'r gofrestr safleoedd ymgeisiol.

**vi) Ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno**

Roedd y cynigion cyn cyflwyno i'w archwilio yn cynnwys y strategaeth a ffefrir gan y Cyngor, y dewisiadau a'r cynigion ar gyfer y CDLIN, ynghyd â dogfennau perthnasol eraill. Gwnaeth y Cyngor sicrhau bod y cynigion i'w archwilio gan y cyhoedd ar gael ar ei wefan ac ar gyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a Swyddfeydd y Cyngor. Cynhaliwyd digwyddiadau galw heibio hefyd.-

**vii) CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd**

Bydd y Cyngor yn cymryd yr un camau i sicrhau bod y CDLIN i'w archwilio gan y cyhoedd ar gael ac i'w gyhoeddi fel yn achos y cynigion cyn cyflwyno. Yn ogystal â hyn, bydd y Cyngor yn arddangos hysbysiadau ar safleoedd a gynigiwyd ar gyfer dyraniadau, neu'n gyfagos iddynt.

## viii) Archwiliad

Diben yr archwiliad yw sicrhau bod y CDLIN yn bodloni gofynion ‘cydnerthedd’ er enghraifft, o ran cydlyniant a chysondeb â materion y mae’n rhaid iddo roi ystyriaeth iddynt, megis polisi cenedlaethol. Bydd arolygydd annibynnol a benodir gan LIC yn cynnal yr archwiliad. Bydd y Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyhoeddi’r archwiliad o leiaf 6 wythnos cyn iddo ddechrau. Gan fod adroddiad yr Arolygydd yn derfynol, ni all y Cyngor na’r partïon eraill ddylanwadu ar y cynllun ar ôl yr archwiliad.

# ATODIAD 1: GEIRFA

**ACLl / Awdurdod Cynllunio Lleol** – yr Awdurdod Lleol neu Gyngor lleol sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau ac am wneud penderfyniadau cynllunio. Yng Nghymru, mae pump ar hugain o Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan gynnwys 22 awdurdod unedol a'r tri Pharc Cenedlaethol.

**Adroddiad Monitro Blynyddol** – Adroddiad blynyddol i LlC sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer paratoi ac adolygu cynlluniau datblygu.

**ALAN** – Golau artiffisial yn y nos. Dyma achos llygredd golau, niwsans a gwawl.

**Archwilio** – proses lle caiff cadernid y CDLl ei brofi yn gyhoeddus a bydd yr Arolygydd/Arolygwyr yn llunio adroddiad am gadernid y CDLl.

**Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is** – ardaloedd â lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i boblogaethau plant, pobl ifanc a'r henoed.

**Ardal Tirwedd Arbennig** – dynodiad lleol sy'n seiliedig ar fapio Landmap er mwyn nodi'r ardaloedd tirwedd mwyaf gwerthfawr, nad ydynt wedi'u diogelu neu eu cynnwys mewn dynodiadau eraill, o bosibl.

**Ardal y Cynllun** - y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) a gwmpesir gan CDLl Conwy.

**Arolygydd** – cynlluniwr annibynnol, profiadol sy'n gweithio i asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Mae'n edrych yn ofalus ar faterion cynllunio manwl a gaiff eu trafod wrth archwilio Cynllun Datblygu, neu mewn ymchwiliad cyhoeddus i gais penodol. Mae arolygwyr hefyd yn penderfynu ar apeliadau.

**ASDA** – Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (fel a ddangosir ar y map cynigion).

**ASDG / Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig** – y rhan o Ardal y Cynllun sydd y tu allan i'r Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, fel a ddangosir ar y map cynigion.

**Asesiad Cludiant** – asesiad o gapasiti a diogelwch priffyrdd i helpu i lywio derbynioldeb datblygiad.

**Awyr Dywyll** – mae gan fwy na dau draean o Gymru awyr dywyll, mae rhannau wedi'u cydnabod yn rhyngwladol fel Gwarchodfeydd Awyr Dywyll, Parc Awyr Dywyll,

Noddfa Awyr Dywyll ac fel Cymuned Awyr Dywyll. Disgwylir i olau fod yn gyfeillgar i Awyr Dywyll.

**Cadarn** – caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu profi gan Arolygydd yn yr Archwiliad i weld a ydynt yn Gadarn. Mae’r Arolygydd yn profi’r cynllun gan ddefnyddio tri ‘phrawf Cadernid’ sy’n cynnwys 1. A yw’n addas? 2. A yw’n briodol? a 3. A fydd yn darparu?

**Cadw** – y sefydliad cyhoeddus â chyfrifoldeb dros oruchwylio cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

**Cais Cynllunio** – y broses a’r dogfennau a gaiff eu cyflwyno gan ymgeisydd sy’n ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad. Mae dogfennau sy’n ofynnol fel rhan o gyflwyno cais cynllunio yn cynnwys ffurflen cais cynllunio, cynllun lleoliad, gosodiad y safle a darluniau i ddangos gweddluniau (golwg allanol waliau). Caiff cais cynllunio ei asesu yn erbyn polisïau yn y cynlluniau datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill. Os caiff y cais cynllunio ei gymeradwyo, bydd yr ACLl yn cyhoeddi tystysgrif cais cynllunio.

**Caniatâd Cynllunio** - cymeradwyaeth ffurfiol a roddir gan Gyngor, a gaiff ei roi yn aml gydag amodau, gan ganiatáu i ddatblygiad arfaethedig barhau. Gellir rhoi caniatâd mewn egwyddor trwy geisiadau cynllunio amlinellol, neu gellir eu ceisio mewn manylder trwy geisiadau cynllunio llawn.

**Canllaw Cynllunio Atodol** – canllawiau manwl a gaiff eu paratoi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel arfer maen nhw’n ymwneud â set benodol o faterion cynllunio. Gallai gwmpasu thema fel dylunio a thirlunio neu gallai fod yn ymwneud ag ardal benodol. Yn aml, mae’n rhoi mwy o fanylion am bolisïau a chynigion mewn cynllun datblygu. Nid oes angen ei archwilio fel cynllun datblygu ond mae’n rhaid iddo fod yn unol â chynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol.

**Canolfan Gwasanaeth Allweddol** – mae’n berthnasol i Lanrwst yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.

**CDLl / Cynllun Datblygu Lleol** – y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy’n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn llunio’r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol er dibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir ac, yn ôl yr angen, polisïau a chynigion angenrheidiol ar gyfer meysydd newid a diogelu allweddol. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau’n ddaearyddol ar y Map Cynigion sy’n rhan o’r cynllun.

**CDLIN / Cynllun Datblygu Lleol Newydd** – y CDLl wedi'i ddiweddaru wrth iddo gael ei baratoi. Yn dilyn Archwilio, os caiff y CDLIN ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r CDLl presennol.

**Cefn gwlad agored** – Unrhyw ardal o dir y tu hwnt i ffiniau'r anheddiad.

**CNC / Cyfoeth Naturiol Cymru** – y corff cyhoeddus â chyfrifoldeb dros reoli tir cyhoeddus a rheoleiddio materion amgylcheddol yng Nghymru.

**Cofrestr codi tâl ardoll seilwaith cymunedol** – tâl datblygu y gall ACLl ei gyflwyno sy'n gofyn am daliad yn seiliedig ar dariff fesul metr sgwâr, yn hytrach na cheisio cyfraniadau ariannol trwy gytundeb Adran 106.

**Creu Lleoedd** – Dull sy'n canolbwyntio ar bobl o ran cynllunio, dylunio a rheoli lleoedd a mannau. Mae mwy o wybodaeth am Greu Lleoedd ar gael ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru.

**Cwblhau** – tai sydd wedi'u hadeiladu ers dechrau Cyfnod y Cynllun sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth tai ar gyfer y cynllun datblygu.

**CYAL / Cynllun Ynni Ardal Leol** – mae'n nodi'r ymyriadau o ran lleihau carbon ac ynni adnewyddadwy a gynigir yn y sir ac sydd wedi'u cynnwys ym Mhapur Cefndir BP/55.

**Cyfarwyddyd Erthygl 4** – Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad oherwydd eu bod yn 'hawliau datblygu a ganiateir'. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer pob ardal neu ardal benodol, sy'n dileu hawliau datblygu penodol a ganiateir. Yna bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith hwn.

**Cyfnod archwilio gan y cyhoedd** – y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol wedi paratoi ei gynllun datblygu drafft terfynol bwriedig. Y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yw'r ddogfen y bydd yr Arolygydd yn edrych arni wrth Archwilio, yn ogystal â sylwadau am y cynllun gan bobl eraill, grwpiau a sefydliadau.

**Cyfnod y Cynllun** – cyfnod oes gweithredol cynllun datblygu. Dyma'r cyfnod y caiff datblygiad ei gynllunio drosto, fel arfer 15 mlynedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol.

**Cymru'r Dyfodol** – y Cynllun Cenedlaethol 2020 yw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru hyd 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â

blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog; datgarboneiddio ac atal newidiadau yn yr hinsawdd; datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

**Cymuned / cymunedau** – Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r bobl sy'n byw gyda'i gilydd mewn cymdogaeth, pentref, comiwn, pentrefan neu ganolbwynt poblogaeth. Gall cymunedau fod yn seiliedig o amgylch crefydd, set o ddiddordebau, proffesiwn ac ati hefyd.

**Cynllun Bro** – dogfen defnydd tir lefel leol a gaiff ei pharatoi gan gynghorau tref a chymuned, neu grwpiau cymunedol lle nad oes Cyngor lleol. Gellir ei fabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol os yw'n cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Cynllun Creu Lleoedd** – dogfen ar lefel leol a gaiff ei gychwyn gan dimau adfywio Awdurdod Lleol fel arfer, maen nhw'n debyg i Gynlluniau Lleoedd ond gallant gwmpasu materion nad ydynt yn ymwneud â defnydd tir hefyd.

**Cynllun datblygu** – dogfen sy'n nodi sut y dylid defnyddio tir a lle y dylai datblygiad ddigwydd dros gyfnod penodol. Mae'r system cynllun datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen, gyda chynlluniau'n cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

**Cynllun datblygu a fabwysiadwyd** – y cynllun datblygu a fabwysiadwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion rheoli datblygu.

**Cynllun Datblygu Strategol** – cynllun rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Lleol. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn arwain datblygiad a darpariaeth isadeiledd dros ardal ddaearyddol ehangach na Chynllun Datblygu Lleol unigol. Byddan nhw'n sicrhau bod twf a newid yn cael eu rheoli mewn modd cydlynol ar draws y rhanbarth. Bydd pedwar Cynllun: De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru.

**Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned** – mae'n nodi dull yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac amserlen ar gyfer cynnwys cymunedau lleol yn y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n rhan o'r Cytundeb Cyflawni a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ar ddechrau'r broses paratoi cynllun. Mae'n rhaid rhoi cyfle i gyrff a grwpiau penodol roi sylwadau ar Gynllun Ymgysylltu â'r Gymuned drafft.

**Cytundeb Adran 106** – math o Rwymedigaeth Cynllunio.

**Cytundeb Cyflawni** – dogfen sy'n nodi amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol yn unol â Rheoliadau'r CDLl. Mae hefyd yn

cynnwys Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned, sy'n nodi sut fydd yr Awdurdod yn cynnwys pobl, grwpiau a sefydliadau ar wahanol gamau o greu cynlluniau. Mae angen cytuno â LlC o ran y Cytundeb Cyflawni.

**Datblygiad** – mae Adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio datblygu fel "gwneud gweithrediadau adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu arall yn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid sylweddol i ddefnydd unrhyw adeilad neu dir arall." Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau penodol o arwyddocâd mor gyfyngedig fel bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu nad ydynt gyfystyr â datblygiad (h.y. eu bod yn de minimis). Fel arfer, mae angen caniatâd cynllunio cyn i ddatblygiad gael ei wneud, oni bai mai datblygiad a ganiateir yw'r cais.

**Datblygiad Cynaliadwy** – gofalu am y byd trwy ddefnyddio ei adnoddau mewn modd synhwyrol. Neu ddatblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r system gynllunio yn bwysig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy – gall arwain at ffyrdd o fyw a gweithio mwy cynaliadwy. Gall hefyd annog mathau newydd o Ddatblygiad sy'n defnyddio llai o ynni.

**Datblygu a Ganiateir** – mân waith penodol a allai gael ei wneud i eiddo heb fod angen caniatâd cynllunio, fel y nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004** – y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae'r broses ar gyfer creu Cynllun Datblygu Lleol wedi'i nodi yn Rheoliadau'r CDLl.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** – Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth allweddol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

**Dwysedd** – o ran datblygiad preswyl, nifer yr anheddau fesul hectar o dir y gellir ei ddatblygu.

**Dyrannu/Dyraniad** – Tir a nodir ar gyfer defnydd penodol (tai, manwerthu, man agored ac ati), fel arfer mewn Cynllun Datblygu Lleol i gefnogi, mewn egwyddor, y defnydd hwnnw o fewn amserlen y cynllun.

**Ffin anheddiad** – llinell a gaiff ei dynnu o gwmpas ardaloedd trefol ac aneddiadau eraill ac a ddangosir ar Fap Cynigion y CDLl, i wahanu aneddiadau oddi wrth gefn

gwlad agored. Bydd polisïau gwahanol yn berthnasol i gais datblygu yn dibynnu p'un a yw safle o fewn ffin yr anheddiad neu'r tu hwnt iddo.

**Fframwaith DECCA** – y dull fesul cam o ran gwella bioamrywiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cwmpasu Amrywiaeth, Graddau, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar gadernid ecosystemau.

**Gwledig** – Er bod y term 'gwledig' yn cael ei ddefnyddio fel arfer yng nghyd-destun yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, gall ymwneud ag unrhyw ardal y tu hwnt i ffin yr anheddiad.

**Hap-safleoedd** – safle nad yw wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer datblygu, ond sy'n codi ar gyfer datblygiad yn ystod oes y cynllun.

**HENEB** – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

**Isadeiledd** – cyfleusterau a gwasanaethau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn i ddatblygiad ddigwydd, er enghraifft, ffyrdd, trydan, carthffosiaeth, dŵr, mannau hamdden, addysg a chyfleusterau iechyd.

**Isadeiledd Gwyrdd** – rhwydwaith o ofod gwyrdd amlswyddogaethol, trefol a gwledig, sy'n gallu darparu ystod eang o fuddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymunedau lleol.

**Llywodraeth Cymru** – llywodraeth genedlaethol Cymru. Mae'n gyfrifol am y system gynllunio yng Nghymru ac mae'n paratoi polisïau cynllunio cenedlaethol.

**Mabwysiadu** – y cam olaf yn y broses o greu cynllun datblygu, pan fydd yn dod yn gynllun datblygu statudol i'r awdurdod cynllunio at ddibenion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

**Parc Cenedlaethol Eryri** – mae'n warchodedig oherwydd ei dirwedd a'i ddiwylliant. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r ACLl ar gyfer yr ardal yn y parc cenedlaethol.

**Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol** – Cyfeirir atynt yng Nghymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040, ond, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u dylunio'n ofodol eto.

**PCAC** – Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

**PCC / Polisi Cynllunio Cymru** – mae'n nodi'r fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru ac mae'n cynnwys nifer o wahanol feysydd o ran cynllunio. Mae wedi'i baratoi gan Lywodraeth y Cynulliad i roi dealltwriaeth glir i

Awdurdod Cynllunio Lleol ac eraill o sut ddylai polisi cenedlaethol gael ei ddarparu ar lefel leol.

**Polisi** – rhannau allweddol cynllun datblygu sy'n nodi uchelgeisiau datblygu ar gyfer yr ACLl, a meini prawf y dylid asesu ceisiadau datblygu yn eu herbyn. Mae rhagor o eglurhad am y polisïau mewn testun ategol.

**Rheoli datblygu** – swyddogaeth ACLl sy'n delio â derbyn, asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Rheoliadau CDLl** – y broses y mae'n rhaid i ACLl ei dilyn wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol.

**Rheoliadau CIL** – rheoliadau sy'n nodi'r broses i alluogi ACLl i fabwysiadu cofrestr codi tâl ardoll seilwaith cymunedol. Mae rheoliadau cil 122 ac 123 yn nodi profion hefyd.

**Rhwymedigaeth Gynllunio** – gweithred gyfreithiol a gaiff ei llunio dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i liniaru effaith cais datblygu. Mae'n rhaid iddynt fod yn angenrheidiol, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad ac yn rhesymol. Gallant fod ar ffurf cyfraniadau ariannol neu olygu bod angen darparu pethau ar y safle fel mannau hamdden neu dai fforddiadwy.

**Strategaeth a ffefrir** – cam yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Strategaeth a ffefrir yn nodi yn gyffredinol iawn sut fydd ardal yn datblygu yn y dyfodol. Mae'n rhoi fframwaith canolog i'r cynllun, sy'n caniatáu i bolisïau cynllunio mwy manwl gael eu paratoi ar gyfer meysydd a phynciau penodol.

**Sylwadau** – Sylwadau a gaiff eu cyflwyno i Awdurdod Cynllunio Lleol. Gallant naill ai gefnogi rhywbeth, neu gallant wrthwynebu rhywbeth. Fel arfer, caiff sylwadau eu gwneud yng nghyswllt cais cynllunio, neu bolisi arfaethedig mewn Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal.

**Tai Fforddiadwy** – ar gyfer dibenion y system gynllunio defnydd tir, yr ystyr yw tai lle ceir dulliau diogel i sicrhau ei fod yn hygyrch i'r rhai hynny na all fforddio'r farchnad dai, fel perchnogaeth gyntaf ac i breswylwyr dilynol. Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol y mae awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen arnynt, a thai canolradd lle mae prisiau neu renti yn uwch na thai rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti tai ar y farchnad agored. Gall tai fforddiadwy gynnwys tai y mae sefydliadau tai cymunedol yn berchen arnynt hefyd, lle mae hyn yn bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru.

**Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol** – tir sydd, neu a oedd, wedi'i feddiannu yn flaenorol gan strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddiaeth neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae'r diffiniad fel y nodir yn PCC yn cwmpasu cwrtil y datblygiad.

**Tir Glas neu Safle Tir Glas** – tir (neu safle a ddiffiniwyd) nad yw wedi'i ddatblygu o'r blaen. Tir yw hwn nad yw'n dod o dan ddiffiniad Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen fel y nodir yn PCC.

**Trefol** – Ardaloedd adeiledig neu ddatblygedig sydd fel arfer wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (Gweler Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol) ond gall hefyd ymwneud â Chanolfan Gwasanaethau Allweddol Llanrwst, sydd yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.

**Ymgysylltu / Ymgysylltiad** – Cymryd rhan mewn ffordd weithgar, fel arfer wrth greu cynlluniau. Dan y system gynllunio newydd, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol Ymgysylltu â'u Cymunedau o gam cynnar paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Ystyr ymgysylltu yw mwy nag Ymgynghoriad – mae'n golygu cynnwys pobl yn gynnar yn y broses o greu cynllun, ac nid dim ond rhoi sylwadau pan fydd cynllun drafft wedi'i baratoi.

**Ymrwymiadau** – tir heb ei ddatblygu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol neu dir sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**Ystyriaeth berthnasol** – mater perthnasol y dylid rhoi ystyried iddo wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae p'un a yw rhywbeth yn berthnasol neu beidio yn aml yn dibynnu ar yr achos unigol. Mae'n rhaid ystyried pob cais ar ei rinwedd benodol ei hun.

# ATODIAD 2: CRYNODEB O'R RHEOLIADAU

Mae'r tabl hwn yn rhoi trosolwg o'r camau allweddol sy'n cynnwys cyhoeddi neu ymgynghori ar ddogfennau CDLl a sut maent yn berthnasol i'r fframwaith deddfwriaethol; bydd rhai o'r camau hyn yn digwydd ar yr un adeg. Nid fwriedir iddi fod yn rhestr gynhwysfawr o reoliadau na'r gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi CDLl. Pan ddarperir ymgyngoreion neu amserlenni ar gyfer ymgynghori, y rhain yw'r gofynion sylfaenol dan y rheoliadau; yn ymarferol bydd y rhain yn cael eu diffinio yn unol ag Amserlen, Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned a Chynllun Cyfathrebu'r Cyngor.

| Deddf 2004 | Rheoliadau CDLl | Rheoliadau AAS | Rheoliadau Cynefinoedd | Llawlyfr CDLl | Cam |
|---|---|---|---|---|---|
| A70 | 41 | Amherthnasol | Amherthnasol | 10.1 | **Adroddiad ar yr Adolygiad** – ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol |
| A63 | 9 | Amherthnasol | Amherthnasol | 4 | **Cytundeb Cyflawni** – trafodaeth ag ymgyngoreion statudol/budd-ddeiliaid allweddol fel sy'n briodol |
| Amherthnasol | Amherthnasol | 9, 11 | Amherthnasol | Amherthnasol | **Penderfynu a oes angen Arfarniad o Gynaliadwyedd** - ymgynghori â CNC a Cadw dan Reoliad 9 er mwyn penderfynu, ac yna sicrhau bod copi o'r penderfyniad ar gael i CNC a Cadw o fewn 28 diwrnod, ac o fewn 14 diwrnod arall i'r cyhoedd |
| A61 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 5.3.1.6 | **Datblygu'r Sail Dystiolaeth** - gallai awdurdodau gyhoeddi 'cais am dystiolaeth' er mwyn gwahodd cyflwyno gwybodaeth gan drydydd parti er mwyn hysbysu strategaeth y CDLl. |
| Amherthnasol | Amherthnasol | 12 | Amherthnasol | 5.5.2 | **Adroddiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd** - Ymgynghoriad â CNC a Cadw (5 wythnos) |
| Amherthnasol | 14 | Amherthnasol | Amherthnasol | 5.3.4.4 | **Cyfranogiad Cyn Archwilio gan y Cyhoedd** - galwad ffurfiol am safleoedd ymgeisiol |
| Amherthnasol | 15 | 13 | 105 | 6.5 | **Ymgynghoriad cyhoeddus cyn archwilio gan y cyhoedd** - Cyhoeddi dogfennau CDLl cyn adneuo sy'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir a dogfennau cysylltiedig (6 wythnos), Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol (28 diwrnod o leiaf) ac Asesiad Rheoliadau Cynefin cychwynnol (os yn briodol) |
| Amherthnasol | 18 | 13 | 105 | 7.4 | **CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd** - Cyhoeddi ac ymgynghoriadau cyhoeddus ar ddogfennau'r CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (6 wythnos) yn cynnwys Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (28 diwrnod o leiaf) ac Asesiad Rheoliadau Cynefin |
| Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 7.6 | **Newidiadau Penodol** - Cam anstatudol ar gyfer ymgynghoriadau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyhoeddus ar newidiadau hwyr |
| A64 (1-3) | 22 | Amherthnasol | Amherthnasol | 8.2 | **Cyflwyno** - Cyhoeddi dogfennau'r CDLl, hysbysu bod y CDLl wedi cael ei gyflwyno i LlC i'w Archwilio, a hysbysu'r rhai a ofynnodd am gael eu hysbysu |
| A64 (4-7) | 23 | Amherthnasol | Amherthnasol | 8.3.2 | **Archwiliad** - Hysbysebu manylion am Archwiliad y CDLl yn Gyhoeddus; cynrychiolwyr i ymddangos pan y'u gwahoddir gan yr Arolygydd - bydd yr holl sylwadau ysgrifenedig yn cael eu hystyried hefyd |
| A64 (8) | 24 | Amherthnasol | Amherthnasol | 8.4.1 | **Adroddiad yr Arolygydd** - Cyhoeddi Adroddiad Rhwymol yr Arolygydd a hysbysu'r rhai a ofynnodd am gael eu hysbysu |
| A67 | 25, 39 | 16 | Amherthnasol | 8.4.3 | **Mabwysiadu'r CDLl** - Cyhoeddi'r CDLl a fabwysiedir, datganiad mabwysiadu ac Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, i'w harddangos yn gyhoeddus a hysbysu'r rhai a ofynnodd am gael eu hysbysu |
| A76 | 37 | 17 | Amherthnasol | 9 | **Monitro'r CDLl** - Llunio Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i LlC a'i gyhoeddi ar y wefan |


## *ATODIAD 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU*

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol sy'n cyfrannu at broses ddemocrataidd y Cyngor. Bydd y trefniant llywodraethu hwn yn goruchwylio pob agwedd ar broses y cynllun, o'r Cytundeb Cyflawni hwn hyd at fabwysiadu'r Cynllun a'i adolygiad nesaf.  Bydd cydweithio rhwng awdurdodau cyfagos yn parhau i alinio â meysydd polisi a strategaethau allweddol, yn enwedig o ran aneddiadau ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri.

Wrth adolygu'r CDLIN, bydd y Cyngor yn mabwysiadu methodoleg rheoli prosiect er mwyn sicrhau y gellir harneisio'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol ar yr adeg gywir, a bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd.  Bydd is-grwpiau CDLIN, a fydd yn cynnwys swyddogion y cyngor a phartïon perthnasol eraill, yn cael eu sefydlu er mwyn trafod y sail dystiolaeth a diwygiadau angenrheidiol i bolisi'r CDLIN, testun ategol a'r CCA. Bydd yr is-grwpiau hyn yn seiliedig ar destunau, er enghraifft; tai, cyflogaeth, mannau agored, manwerthu ac ati a byddan nhw'n cael eu cynnal pan fo'r angen yn codi. Bydd pob is-grŵp yn cael ei arwain gan Uwch Swyddog Polisi Cynllunio a fydd yn pennu'r rhaglen ar gyfer y drafodaeth ac yn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cofnodi a'u rhoi ar waith.  Rôl yr is-grwpiau hyn ar gyfer pob maes testun yw:

- Edrych yn fanwl ar berfformiad polisi yn y gorffennol yng nghyd-destun Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac adroddiad ar yr adolygiad o'r CDLI
- Casglu, adolygu, a phan fo'n briodol, comisiynu sail dystiolaeth newydd
- Gwneud argymhellion o ran newid polisi, testun ategol a CCA
- Llunio adroddiadau pwyllgorau a chyflwyno tystiolaeth ategol a pholisi i'r pwyllgorau Cyngor perthnasol eu cymeradwyo.

Mae'r strwythur adrodd wedi ei amlinellu isod:



# ATODIAD 4: ADNODDAU

Bydd y gwaith paratoi cynllun craidd yn cael ei wneud gan y tîm Polisi Cynllunio Strategol sy'n rhan o adain Gwasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor. Mae'r tîm yn cynnwys saith aelod o staff; y Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol, pedwar Uwch Swyddog Cynllunio, un Uwch Swyddog Ymgysylltu a Chynllunio Lleoedd, ac un Swyddog Rhwymedigaethau Cynllunio. Rhagwelir, ar gyfartaledd, y bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio yn treulio traean o'i amser gweithredol yn paratoi'r CDLIN, tra bydd y swyddogion eraill yn treulio dwy ran o dair o'u hamser gweithredol ar y gwaith hwn.


Yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio a chynhyrchu CDLl, mae gan y tîm Polisi Cynllunio y sgiliau a'r gallu yn fewnol i ddatblygu a defnyddio cronfeydd data ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau ac ar gyfer cyflwyniadau safleoedd arfaethedig; i wneud gwaith mapio/GIS ac i gynhyrchu ac argraffu Mapiau Cynigion CDLl. Mae hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar arbenigedd technegol allanol ac felly'n arbed costau ac amser o gymharu â phroses y CDLl blaenorol.

Bydd rhagor o gymorth gan ymgynghorwyr a gomisiynwyd hefyd yn helpu o ran paratoi sail dystiolaeth pan fo angen mewnbwn arbenigol/annibynnol.

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail cylch cyllido blynyddol. O ran adnoddau ariannol, mae cyllideb ar gyfer proses gyfan y CDLl wedi ei chyflwyno ac mae gwariant wedi ei gytuno ar gyfer 2025/26. Bydd y gyllideb ar gyfer blynyddoedd dilynol yn cael ei chyflwyno yn flynyddol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod yna gyfyngiadau anrhagweladwy wrth weithredu'r Cytundeb Cyflawni, yn arbennig yn ymwneud â staff ac adnoddau cyllidebol, ond bydd yn ymdrechu i leihau effaith unrhyw anawsterau o'r fath all godi.

# ATODIAD 5: AMSERLEN CDLLN FANWL



# ATODIAD 6: CYRFF SY'N YMWNEUD Â PHROSES Y CDLLN

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac ymgynghoriadau CDLl blaenorol wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer nodi ymgyngoreion ar gyfer camau gwahanol y broses CDLl. Mae Rheoliadau'r CDLl yn nodi cyrff ymgynghori penodol (Rheoliad CDLl 2). Mae'n rhaid i ACLl ymgynghori â'r cyrff hyn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau. Mae'r cyrff hyn yn gyfrifol am elfennau critigol o'r isadeiledd ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n hanfodol wrth gyflawni'r cynllun. Mae'r tabl isod yn nodi'r grwpiau cychwynnol y bwriedir ymgynghori â nhw yn unol â chyngor y Llawlyfr CDLl.

| Example of Specific Consultation Bodies – Regulation 2 (LDP Regulations) |
|---|
| Welsh Government (comprising all relevant Departments (not exhaustive) – Cadw, transport (as the Highway Agency for the trunk road network), Best and Most Versatile Agricultural Land (BMVAL) flood and water management, equalities, marine, economy and Welsh language) |
| Natural Resource Wales (NRW) (advising on flood risk, drainage and sustainable drainage (SuDS), biodiversity, SA/SEA and HRA) |
| Local Heath Boards (the need for health facilities including primary health care) |
| Dwr Cymru Welsh Water (sewerage and water infrastructure) |
| Communication providers (telecommunications and broadband) |
| Electricity and gas undertakers (grid/network capacity and requirements) |
| Adjoining LPAs |